



Holl Aelodau'r Senedd

28ain o Dachwedd 2022

Annwyl gyfaill,

Fe addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch i roi diweddariad ar y maes orthopedeg ac, yn benodol, ar y gwaith sydd wedi bod ar y gweill ers yr uwchgynhadledd orthopedig gweinidogol a gynhaliais ym mis Awst.

Ers yr uwchgynhadledd, mae nifer o bethau wedi digwydd

- Mae byrddau iechyd wedi datblygu cynlluniau gweithredu i roi'r cynigion GIRFT (Ei Wneud yn lawn y Tro Cyntaf) a'r llwybrau cenedlaethol ar waith. Mae'r Tîm Gwella ac Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd ar drywydd y rhain gyda byrddau iechyd ac yn gwneud yn siŵr bod y camau hyn yn cael eu gweithredu.
- Mae'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol wedi ysgrifennu at fyrddau iechyd i amlinellu'r sefyllfa ar gyfer cleifion sy'n aros ers cyfnod hir, ac i nodi y dylai'r rheini sy'n aros ers dros 104 o wythnosau gael eu rhoi yn yr un categori â chleifion brys wrth archebu apwyntiadau.
- Gwelwyd cynnydd o ran y nifer o lwybrau agored sy'n aros dros 104 o wythnosau, gyda'r nifer ar ddiwedd mis Medi yn dangos 16,554, sef yr isaf ers mis Rhagfyr 2021. Rydym yn disgwyl gweld cynnydd pellach wrth i fyrddau iechyd barhau weithredu a chynyddu cyfraddau 'trin yn eu tro', gyda'r cleifion sydd wedi aros hiraf yn cael eu gweld.
- Ym maes orthopedig, mae'r data rheoli diweddaraf yn dangos ar lefel Cymru gyfan, fod y gyfradd 'trin yn eu tro' yn 44% ar gyfer cleifion allanol a 33% ar gyfer triniaethau – mae hyn yn cymharu â 26% ar gyfer arbenigeddau eraill. Mae hyn yn welliant ers yr uwchgynhadledd.
- Er nad ydynt eto wedi cyrraedd y lefel y byddwn yn ei ddymuno, mae lefelau gweithgarwch wedi cynyddu drwy gydol y flwyddyn o 52% ym mis Ebrill i 69% ym mis Medi. Mae lefelau gweithgarwch achosion dydd wedi cynyddu o 51% i 72% a lefelau gweithgarwch cleifion mewnol wedi cynyddu o 52% i 66%.

Mae ymdrech sylweddol yn cael ei wneud i gynyddu a chynnal y capasiti orthopedig a gynlluniwyd dros fisoedd y gaeaf ac mae hyn yn cynnwys:

- Mae capasiti ychwanegol nawr ar gael yn Ysbyty'r Tywysog Philip, yn dilyn gosod dwy theatr ddydd newydd a ddylai alluogi cynnal hyd at 4,600 o driniaethau ychwanegol bob blwyddyn. Disgwylir y bydd y theatrau newydd yn dechrau gweithredu ar ddechrau mis Rhagfyr.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn aildrefnu gwasanaethau orthopedeg yn y bwrdd iechyd fel y gellir cynnal y rhan fwyaf o driniaethau orthopedig rheolaidd yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, gan adael i Ysbyty Treforys ymdrin â'r gwaith mwy cymhleth. Fel rhan o'r cynllun i gynyddu gweithgarwch orthopedeg, rhoddwyd adnodd ffisiotherapi ychwanegol ar waith yng nghlinigau Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym mis Tachwedd. Mae ward triniaethau orthopedeg a gynlluniwyd gyda 10 gwely (ward Clydach) wedi dechrau gweithredu ar safle Treforys yn ystod mis Tachwedd i ddarparu capasiti ar gyfer achosion orthopedeg cymhleth.
- Mae Cwm Taf Morgannwg yn lleoli gwaith orthopedeg cleifion mewnol yn ganolog yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gan adael safle Ysbyty'r Tywysog Siarl yn rhydd ar gyfer mwy o weithgarwch achosion dydd.
- Mae Canolfan Orthopedeg Caerdydd a'r Fro (CAVOC) wedi'i lleoli ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ac yn cynnig gweithgarwch orthopedig a ddiogelir.
- Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, mae'r bwrdd iechyd yn edrych ar sut y gellir gwneud y defnydd gorau o'r safleoedd ysbyty, gan ddarparu gwasanaethau yn Ysbyty Ystrad Fawr, Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Gwynllyw. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n rhanbarthol gyda Byrddau Iechyd Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf Morgannwg.
- Yng Ngogledd Cymru, mae'r bwrdd iechyd yn datblygu cynigion i gynnal gweithgarwch orthopedeg ychwanegol yn un o'u safleoedd tra byddant yn parhau â'r gwaith ar gynllunio canolfannau diagnosteg a thriniaeth ar gyfer y rhanbarth.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services